Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar The Maelor School

Dyddiad yr arolygiad: 06/10/2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Maelor yn gymuned groesawgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn cael eu cynorthwyo'n dda, ac yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn trafodaethau dosbarth. Maent yn cydweithio'n effeithiol â chyfoedion, gan ddangos parch ac aeddfedrwydd.

Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr wedi datblygu diwylliant o gydweithio ac atebolrwydd ar y cyd. Mae prosesau sicrhau ansawdd yn darparu tystiolaeth uniongyrchol ddefnyddiol ar gyfer arweinwyr, ac mae hunanwerthuso yn llywio cynllunio gwelliant yn effeithiol. Mae dysgu proffesiynol yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol ac yn cael ei werthfawrogi gan staff. Mae llawer o arweinwyr canol yn deall eu rolau'n dda, er nad yw lleiafrif ohonynt bob amser yn gwerthuso effaith eu gwaith ar gynnydd disgyblion yn gywir, ac nid yw ychydig ohonynt yn eglur wrth gynllunio i wella dysgu'r disgyblion.

Mae'r addysgu'n effeithiol, ar y cyfan, ac mae llawer o athrawon yn datblygu perthnasoedd cryf â disgyblion ac yn rheoli ymddygiad yn dda. Yn y gwersi mwyaf llwyddiannus, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sydd â dilyniant da, yn defnyddio cwestiynau treiddgar, ac yn addasu eu haddysgu i ddiwallu anghenion disgyblion. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, mae disgwyliadau isel, tasgau diymdrech a holi gwan athrawon yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion.

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu ymagwedd ystyriol at ddatblygu medrau rhifedd a digidol disgyblion. Mae cymhwysedd digidol yn gryfder nodedig, a dilyniant wedi'i fapio'n glir ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau digidol yn effeithiol mewn ystod o bynciau, yn cynnwys meysydd fel celf a drama. Mae rhifedd wedi'i ddatblygu'n dda, ac mae llawer o ddisgyblion yn datrys problemau cymhleth ac yn cymhwyso medrau data mewn gwyddoniaeth. Cefnogir llythrennedd ar draws y cwricwlwm, er mai megis dechrau datblygu y mae cynllunio ar gyfer ei ddatblygu'n raddol.

Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys, gyda gweledigaeth glir yn cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru. Mae'n hyrwyddo diwylliant a thraddodiadau Cymru ac yn cefnogi datblygiad creadigol ac artistig disgyblion yn dda. Mae cydweithio ag ysgolion cynradd a cholegau lleol yn ymestyn dilyniant a chyfleoedd galwedigaethol.

Mae staff yn meithrin perthnasoedd ymddiriedus â disgyblion ac yn hyrwyddo lles trwy wasanaethau a gweithgareddau eraill. Caiff cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hyrwyddo'n effeithiol trwy amrywiaeth o ddigwyddiadau a phwyllgor Amrywiaeth disgyblion a ffurfiwyd yn ddiweddar. Mae disgyblion a staff yn deall gweithdrefnau diogelu, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth a her effeithiol. Mae'r cynllunio ariannol yn drylwyr, er bod yr ysgol yn wynebu diffyg sylweddol yn y gyllideb ar hyn o bryd. Mae'r ysgol yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol i gefnogi disgyblion dan anfantais, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae presenoldeb disgyblion yn parhau i fod islaw lefelau cyn y pandemig.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:**

A1. Parhau i weithio tuag at leihau'r diffyg yn y gyllideb

A2. Sicrhau bod pob arweinydd, yn enwedig arweinwyr canol, yn gwerthuso darpariaeth yn ôl ei heffaith ar ddysgu'r disgyblion

A3. Gwella cyfraddau presenoldeb ysgol gyfan

A4. Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn gynyddol, yn enwedig eu medrau darllen datblygedig

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/12/2025